# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL


| | |
|---|---|
| Clerc<br>*Clerk*<br>**Caroline Jones**<br>01248 602131<br>CyngorLlanllechid@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |


**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau y 10fed o Ebrill am 1900yh.**

**1. PRESENNOL**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Rhydian Williams
Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Robin Williams
Y Cynghorydd Alun Thomas

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Yr Is- Gadeirydd, Y Cyng. Rhydian Williams

**2. Ymddiheuriadau**
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris
Y Cynghorydd Kevin Williams

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 13fed o Fawrth 2025.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

**4.1 Arwyddion Maes y Groes –**Cafwyd ddiweddariad gan Meirion Macintyre Huws mai y syniad gwreiddiol oedd codi arwydd anstatudol gyda diwyg cwbl ar wahân, yn nodi lle mae Maes y Groes. Ond erbyn hyn nid yw Priffyrdd yn awyddus i godi

arwyddion anstatudol drwy'r sir felly awgrymodd Prifyrdd y dylid mabwysiadu'r enw a'u wneud yn statudol. Nid oes gan y Cyngor y statws cyfreithiol i wneud hynny.
Mae trafodaeth felly ar y gweill. Disgwylir ddiweddariad.

**4.2 Bin Halen Bryn Derwas –** Ymateb wedi ei dderbyn gan Mr Ian Morgan, y pris diweddaraf am fin 340 litr oedd £362.67. (Mae hyn yn dyddio o 2022 felly bydd angen ei ddiweddaru). Opsiwn arall yw ail-leoli un o'r biniau presennol sydd ddim yn derbyn llawer o ddefnydd. Y Clerc wedi cysylltu gyda Mr Morgan, yn awgrymu bin halen Maes y Groes. Dim diweddariad.

**4.3 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen–** Diweddariad gan Mr Steffan Jones 13/6/24, 'Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol o ddŵr yn rhedeg ar hyd ochr Lon Aberogwen a bydd ymchwiliad i ffynhonnell y dŵr yn cael ei gyflawni. Bydd unrhyw weithred yn ddibynnol ar ganlyniad yr ymchwiliad. Gallwn gyflwyno sylwadau pellach ar gyfer eich cyfarfod nesaf.' Y Clerc i ddilyn i fyny.

**4.4 Diffyg biniau ar lwybr beicio Wîg a diffyg bin yn y Gilfan gyferbyn ar yr A55 –** Y Clerc wedi bod mewn cysylltiad gyda Mr Peter Simpson, Rheolwr Gwasanaethau Stryd. Y sefyllfa bresenol yw nad yw'n glir pwy sydd gyda cyfrifoldeb dros y llwybr beicio. Trafodwyd y pwnc o osod bin yn y cilfan. Mae cyfarfod gyda'r Uwch Reolwr Cefnffyrdd wedi ei drefnu, lle bydd y cais yn cael ei ystyried yn fanwl gan gynnwys asesiad risg. Unawgrym yw treialu bin yn y cilfan. Disgwylir diweddariad unwaith bydd penderfyniad wedi ei wneud. Dim diweddariad.

**4.5 Tai i bobl lleol –** Cais Cyngor Gwynedd am Safleoedd Posibl y Cynllun Datblygu Lleol Arfaethedig - Y Cyng Robin Williams i ymateb gyda'r awgrym fod Chwarel Pantdreiniog yn addas. Gan nad oes safleoedd addas ym mhlwyf Llanllechid.
Cytynwyd i **dynnu** oddi ar y cofnodion.

**4.6 Ffens bren ger pont Allt Ty'n Hendre –** Diweddariad ar y 13fed o Dachwedd gan Steffan Jones, Pennaeth adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd. 'Cadarnhaf i'r gwaith hwn barhau i fod ar ein rhaglen, sut bynnag mae ein gallu i gyflawni'r gwaith yn ddibynnol ar flaenoriaethau ac adnoddau. Gyda'r Cyngor yn wynebu toriadau mewn cyllideb mae'n anorfod bydd hyn yn cael effaith y Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd. Ar hyn o bryd, nid oes modd nodi dyddiad penodol i'r gwaith'
Y Clerc i anfon antgoffyn i Gyngor Gwynedd pob 3 mis. Atgoffyn wedi ei yrru 5/3/25.

**4.7 Lon Wig -** Adroddwyd fod terfyn cyflymder y llwybr yn 60mya, gyda cerddwyr, beicwyr a cerbydau ar yr un llwybr. Derbynwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru;

'Y terfyn cyflymder ar y darn newydd o ffordd sirol yw 40mya ac mae'n gyson â therfynau cyflymder ar y ffyrdd y mae'n cysylltu â nhw, ffordd i Llandygai a Hendre Hall/ Fferm Tyn Hendre/ mynediad i'r A55. Mae'r ffordd sirol newydd yn cludo traffig cerbydau ysgafn gan mai dim ond fel mynedfa fferm a mynediad i bedwar eiddo y'i defnyddir'

Y Clerc i ysgrifennu at Siân Gwenllian AS, i amlygu y sefyllfa.

**4.8 Torri gwair Bro Emrys –** Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd am amcan bris. Dim diweddariad.

**4.9 Polisi Iaith.** Polisi Iaith Cyngor Cymuned Llandygai wedi ei rannu gyda'r Cynghorwyr. Y Clerc i ail rhannu. I'w trafod mîs nesaf.

**4.10 Sedd Wag –**Sedd Wag Llanllechid Uchaf wedi ei ail hysbysebu.

**4.11 Wern bach -** Adroddwyd fod y dwr ar y ffordd wedi gwaethygu, ac yn rhewi yn y tywydd garw. Disgwylir ymateb gan Ian Morgan, Cyngor Gwynedd.

**4.12 Arwydd Llanllechid wedi torri –** Y Clerc wedi adrodd at Gyngor Gwynedd, a'r ymateb yw fod Swyddog o'r Adran Briffyrdd wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith fel rhan o'n rhaglen waith rhaglenedig

**4.13 Llwybr Tanybwlch –** Derbynwyd cwynion fod staff yn y ganolfan Outreach wedi bod yn troi pobl yn nol oddi ar lwybr cyhoeddus Tan Y Bwlch sy'n arwain fyny i'r mynydd.
Y Clerc i rannu rhif ffôn Y Cyng Kevin Williams gyda Rob Jones, Cyngor Gwynedd i drafod.

**4.14 Lôn Goed –** Lôn wedi culhau a drain wedi gordyfu – Y Clerc wedi adrodd at Gyngor Gwynedd, a'r ymateb yw fod Swyddog o'r Adran Briffyrdd wedi bod allan yn asesu'r broblem. Nid yw'r mater yn cael ei ystyried fel un brys, ond mae trefniadau mewn lle i wneud y gwaith fel rhan o'n rhaglen waith rhaglenedig

**4.15 Eogiaiad Ogwen Bank** - Y Clerc wedi gysylltu ag Ynni Ogwen ynglŷn â'r problemau mae'r eogiaid yn eu cael i fyny'r afon yn Ogwen Bank. Nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw rwystr i fudoledd yr eog. Y Clerc i gael mwy o wybodaeth am yr achos.

**5. Adroddiad Cyngor Sir, Y Cyng Dafydd Meurig.**
Dim adroddiad.

Y Clerc i gysylltu gyda Y Cyng Dafydd Meurig am yr oedi o ran ymatebion gan Gyngor Gwynedd ynghylch nifer o faterion ac adroddwyd iddynt.

**6. Taliadau**

Dim

Y Cyng Kevin Williams wedi gwneud ymholiadau am gostau gwasanaethu y mower- nid oes angen talu am y gwasanaeth cyntaf.

## 7. Y Mynydd

PCSO Rhys Evans o adran Troseddau Gwledig yr Heddlu yn awyddus i ymuno ac un cyfarfod. Y Clerc i'w gwahodd i gyfarfod yn y flwyddyn newydd.

Mabwysiadwyd y rheol newydd arfaethedig mewn egwyddor yng Nghyfarfod Mis Tachwedd. Y Cyng Wyn Bowen Harries i ddiwygio'r rheolau ar gyfer cytundeb terfynol.

Y Clerc i drefnu cyfarfod Is-bwyllgor mynydd i drafod y Swydd Bugail mynydd, a'r broses o recriwtio.

## 8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont

### 8.1 Grant Cronfa Gymunedol Loteri

- Y Cyng Evan Jones wedi bod mewn cysylltiad gyda'r Swyddog Ariannu Lleol Mr Steven Morgan. A mae'r Is bwyllgor cae chwarae wedi cyfarfod i drafod. Cyfarfu Y Clerc, Y Cyng Evan Jones a Donna Watts (Partneriaeth Ogwen) i drafod y cais. Donna am gael amcanbris ar gyfer cynorthwyo gyda'r cais.

- Mae angen ceisio am grant ychwanegol i'r offer. Y Clerc i wneud cais i Tesco stronger starts ac hefyd chwilio am grantiau eraill sydd ar gael. Nid oes Grant ar gael ar hyn o bryd gan Mantell Gwynedd. Byddant yn hysbysebu pan mae rhai ar gael.

- Y Clerc i baratoi adroddiad cyllid er mwyn trafod yr opsiwn arian cyfatebol.

- Cafwyd diweddariadau o'r tri amcanbris. Y Cyng Evan Jones wedi cael dau amcanbris am y gôliau. Y Clerc i gysylltu gyda cwmni Hexa-sports am y trydydd.

- Y Clerc i wirio yswiriant am y cae a'r mower.

**8.2 Parcio a giatiau**–Cyfarfu Y Cyng Evan Jones gyda Mr Steffan Jones, Cyngor Gwynedd yn y safle. Mae Mr Jones am ddrafftio cynllun a hawl cynllunio i'r maes parcio. Codwyd y ffaith fod giat y cae chwarae yn anaddas i gadair olwyn, mae Cyngor Gwynedd am osod giât addas yn ei le. Trafodwyd hefyd y giât i'r cae peldroed ac mynediad i beiriannau. Mr Jones am ysgrifennu llythyr cefnogol ar y gyfer y cais grant.
Y Clerc i gysylltu gyda Mr Llifon Foulkes, Cyngor Gwynedd am feinciau.

## 9. Llyfrgell Cymunedol

Cafwyd dadansoddiad mwy manwl gan Y Cyng Dafydd Meurig am y biliau trydan a derbynwyd, hefyd anfonwyd cais at Octopus i adolygu'r taliadau. . Disgwylir am ymateb gan Octopus. Dim diweddariad.

Diweddariad gan Y Cyng Dafydd Meurig yw bod y car clwb trydan newydd yn weithredol gan gwmni nid-er-elw 'TrydaNi', ac eisoes yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan bobl leol.

Mae'r car yn cael ei wefru yn y Llyfrgell, ac mae trefn mewn lle drwy ddefnydd 'RFID card' i gadw cofnod o'r trydan sydd yn cael ei ddefnyddio i wefru'r car. Mae TrydaNi yn cael eu bilio'n fisol am y trydan a'r arian yn cael ei drosglwyddo i gyfrif PO yn otomatig.

**10. Arolygon Cymunedol ffiniau o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013**

Derbynwyd gohebiaeth gan Y Cyng Huw Jones ynghylch y ffîn rhwng plwyf Llanllechid a Bethesda. Gofynwyd i'r Cyngor drafod y ffîn ac ystyried ei symud fel bod Cae Rhosydd ym mhlwyf Bethesda. Trafodwyd yr achos, ac mae'r Cyngor yn hapus i gefnogi ar yr amod fod y trigolion yn ymwybodol ac yn cefnogi yr ymgais. Y Clerc i ymateb i'r Cyng Huw Jones, ac hefyd i ofyn pwy sy'n gyfrifol am gysylltu â'r preswylwyr

**11. Archwilydd Mewnol**

Y Cyngor yn hapus i benodi Cyngor Gwynedd i gynnal yr archwiliad mewnol.

**12. Gohebiaeth**

Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Ebrill 2025'

**12.1 Eisteddfod Llangollen, Cais am rhodd** - Mi fydd y Cyngor yn falch o groesawu ceisiadau o fewn y ffenestr hysbyswyd.

**12.2 Clwb Ffermwyr Ifanc Eryri, Cais am rhodd -** Mi fydd y Cyngor yn falch o groesawu ceisiadau o fewn y ffenestr hysbyswyd.

**12.3 Zip World a Chronfa Waddol Cymunedol Cais Zip World am gyllid cyhoeddus –** Trafodwyd y cais i gefnogi yr alwad a phenderfynwyd nid oedd digon o wybodaeth ar gael i wneud penderfyniad. Y Clerc i wahodd Y Cyng Beca Roberts i gyfarfod nesaf y Cyngor i drafod yn fwy manwl.

**13. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Dim i'w hadrodd.

**14. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**NP3/21/T78**
Hen Ysgubor, Ty'n-y-Maes, Nant Ffrancon
Amrywio Amodau 2 (Cynlluniau a gymeradwywyd) ac 8 (Maint y cerbydau danfon) ynghlwm wrth Ganiatâd Cynllunio NP3/21/T78
**Penderfyniad** Cytynwyd gyda amodau

**C24/1128/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Cais i ymgymryd â gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad** Ar y gweill

Trafodwyd y cais a phenderfynwyd gwrthwynebu. Y Cyng Robin Williams am ddrafftio'r gwrthwynebiad.

**Ceisiadau Newydd**

**C25/0230/21/CR**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal y Bont
Codi estyniad unllawr cefn
**Penderfyniad** Ar y gweill

**15. Materion Brys/Eraill**

Dim

**16. Adroddiad Llais Ogwan**

Cynhaliwyd cyfarfod Mîs Ebrill ar Nos Iau, Ebrill 10fed. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Yr Is-Gadeirydd Y Cynghorydd Rhydian Williams.

Ma hi'n adeg honno o'r flwyddyn pan fydd trefniadau'n cael eu gwneud i dorri llwybrau troed y plwyf. Os gwelwch yn dda cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org os oes unrhyw lwybrau troed yn y plwyf y credwch sydd angen sylw

Hefyd, mae Sedd Wag wedi ei hysbysebu yn Ward Llanllechid Uchaf, cysylltwch â cyngorllanllechid@ogwen.org

Cynhelir y cyfarfod nesaf/cyfarfod blynyddol ar y 8fed o Fai.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ____________________________________